



Llywodraeth Cymru

Papur Gwyn

Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

Ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu a chyllido
Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 13 Tachwedd 2018

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 05 Chwefror 2019

Trosolwg	Diben yr ymgynghoriad hwn yw holi'ch barn ynghylch cynigion i ddiwygio sut y caiff Awdurdodau Tân ac Achub eu llywodraethu a'u cyllido.
Sut i ymateb	<p>I ymateb i'r ymgynghoriad hwn, llenwch y ffurflen ar-lein drwy glicio yma:</p> <p>https://beta.llyw.cymru/diwygio-awdurdodau-tan-ac-achub-yng-nghymru</p> <p>Fel arall, gallwch ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar wahân sydd wedi ei darparu a'i hanfon drwy e-bost i: fire@gov.wales</p> <p>neu ei hanfon drwy'r post i'r cyfeiriad isod.</p> <p>Y dyddiad cau i dderbyn ymatebion yw 05 Chwefror 2019.</p>
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	<p>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.</p> <p>Cyfeiriad y tudalennau ymgynghori ar y we:</p> <p>https://beta.llyw.cymru/diwygio-awdurdodau-tan-ac-achub-yng-nghymru</p>
Manylion cyswllt	<p>I gael rhagor o wybodaeth:</p> <p>Y Gangen Gwasanaethau Tân Llywodraeth Cymru Rhyd-y-car Merthyr Tudful CF48 1UZ</p> <p>E-bost: fire@gov.wales Rhif ffôn: 0300 062 8226</p>

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus



Rydym yn falch o'n gwasanaethau tân ac achub, a hynny'n gwbl briodol hefyd. Maen nhw'n ymateb yn gyflym, yn effeithlon ac yn anhunanol i fynd i'r afael â bygythiadau difrifol i'n diogelwch. Yn fwy na hynny, mae eu gwaith atal a diogelwch wedi helpu i sicrhau bod nifer y tanau fwy na hanner yn is ers datganoli'r cyfrifoldeb i Gymru yn 2005.

Mae hynny'n llwyddiant mawr, ond mae hefyd yn her. Wrth i nifer y tanau ostwng, mae swyddogaeth y Gwasanaeth yn ehangu. Mae gan ddiffoddwyr tân y medrau, y cymwyseddu a'r gwerthoedd i ymdrin ag ystod eang o ddigwyddiadau eraill, megis llifogydd, argyfyngau meddygol ac ymosodiadau terfysgol. Ond i fanteisio i'r eithaf ar y gallu hwnnw, mae angen i'r Gwasanaeth gael ei lywodraethu a'i ariannu mewn modd modern, atebol a chynaliadwy. Nid felly y mae hi ar hyn o bryd.

Mae heriau eraill hefyd. Mae pobl yn byw yn hirach, ond mae mwy o risg i bobl hŷn gael tanau yn eu cartrefi. Mae angen dysgu gwersi o drychineb Tŵr Grenfell o hyd, a gweithredu arnynt. Bydd newid yn yr hinsawdd yn cynyddu'r perygl o lifogydd a thanau gwyllt. Ac mae cyllid cyhoeddus yn gyfyng eithriadol – sefyllfa sy'n debygol o waethygu yn sgil Brexit. Eto, mae angen y safonau uchaf o arweinyddiaeth ac eglurder, gan sicrhau bod gan y Gwasanaeth yr adnoddau sydd eu hangen arno, ond gan roi hynny mewn cyd-destun ehangach hefyd.

Nid bai'r Gwasanaeth yw hyn. Mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn dyddio'n ôl i ganol yr 1990au. Er iddynt fod o bosibl yn addas bryd hynny i redeg brigâd dân mewn tref, mae'r Gwasanaeth a'r gofynion a roddwyd arno wedi newid yn sylweddol ers hynny.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Mae'n cynnwys y ddatl gyffredinol dros ddiwygio, ynghyd â sut orau yr hoffem weld hynny'n digwydd.

Mae'n rhaid diwygio os yw'r Gwasanaeth eisiau gweld dyfodol cynaliadwy, ac nid yw dal ati yn yr un rhigol yn ddewis, na chwaith y nifer o bosibiliadau damcaniaethol eraill y mae Pennod 2 y ddogfen hon yn eu disgrifio. Fodd bynnag, ar hyn o bryd rwy'n credu fod canlyniad y diwygio yn bwysicach na'r cyfrwng. Byddwn, felly, yn fodlon ystyried unrhyw bosibiliadau diwygio eraill a fyddai'n bodloni'n glir y meini prawf y mae'r ddogfen hon yn eu disgrifio.

Mae newid yn rhy aml yn ymateb i fethiant, ac yn rhoi mwy o faich byth ar sefydliadau sydd mewn trafferthion. Nid felly y mae yma. Rwyf eisiau adeiladu ar y llwyddiannau a gawsom, a chynnal y gwasanaethau yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt. Edrychaf ymlaen at glywed eich sylwadau.

Alun Davies AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

PENNOD 1

Y ddadl dros newid

- 1.1 Mae'r bennod hon yn egluro'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli a darparu gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, a pham mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylent newid.
- 1.2 Nid yw hyn yn golygu bod angen gwella gwasanaethau craidd a thraddodiadol y gwasanaethau tân ac achub. Maent wedi perfformio'n dda ers tro byd. Mae tanau a phobl sy'n cael eu hanafu mewn tanau yn lleihau'n gyson yng Nghymru, fel mewn mannau eraill.
- 1.3 Mae'r tueddiadau hynny, yn rhannol o leiaf, yn ganlyniad i waith y gwasanaeth tân yn gwella diogelwch tân ac yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon pan fo tanau'n dechrau. Nid ein diben ni yw herio hynny; yn wir, credwn y dylai fod pawb sy'n rhan o'r gwasanaeth fod yn falch iawn o'r hyn y maen nhw wedi ei gyflawni. **Mae'n rhaid i unrhyw ddiwygio warchod yr enw da hwn a chaniatáu i'r Gwasanaeth Tân gynnal a gwella hynny i'r graddau mwyaf posibl.**
- 1.4 Mae'r ddadl dros newid yn seiliedig yn hytrach ar yr angen i wella gallu'r gwasanaeth i gynnal y llwyddiant hwnnw ac adeiladu arno. Mae angen iddo allu deall ac ymateb i heriau hirdymor sy'n dechrau dod i'r amlwg, a gwneud hynny mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu cyd-destun ehangach darparu gwasanaethau cyhoeddus. Credwn fod y trefniadau presennol yn ddiffygiol yn hyn o beth. Mae'r rhesymau am hynny i gyd yn deillio o'r fframwaith llywodraethu a chyllido statudol sy'n dyddio'n ôl i ganol yr 1990au. **Nid yw'r ddadl dros newid yn awgrymu unrhyw ddiffygion o gwbl ar ran aelodau, rheolwyr na staff yr Awdurdod Tân ac Achub.** Bu'n rhaid iddyn nhw weithio gyda'r system fel y mae hi, a chredwn eu bod wedi gwneud hynny gystal â phosibl.

Y trefniadau presennol

- 1.5 Ers 1996, darparwyd y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru gan dri Awdurdod Tân ac Achub. Mae pob awdurdod, mewn cyfraith, yn *awdurdod cyfun*, sy'n golygu eu bod wedi eu ffurfio o gyfuniad o awdurdodau lleol yn eu hardaloedd - er bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn endid ar wahân yn ei hawl ei hun. Mae'r awdurdodau lleol cyfun hynny yn eu tro yn gyfrifol am aelodaeth a chyllid yr Awdurdod Tân ac Achub, fel a ganlyn:
- 1.6 Yn gyntaf oll, mae pob awdurdod lleol yn enwebu nifer penodol o gynghorwyr i fod yn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r nifer hwnnw yn cyfateb yn gyffredinol i boblogaeth yr awdurdod lleol fel cyfran o boblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub. Mater i bob awdurdod lleol yw dewis aelodau; ond caiff aelodau Awdurdod Tân ac Achub eu dewis ar y cyfan o blith cynghorwyr heb gyfrifoldebau eraill megis bod yn aelodau o weithrediaeth cyngor neu gadeiryddion pwyllgorau craffu neu archwilio.
- 1.7 Yn ail, darperir bron y cyfan o gyllid yr Awdurdodau Tân ac Achub gan yr awdurdodau lleol. Mae hyn ar ffurf cyfraniadau y mae pob Awdurdod Tân yn ei gyfrifo a'i godi ar bob un o'i gynghorau cyfun. Mater i'r Awdurdod Tân ac Achub yw penderfynu ar faint pob cyfraniad. Unwaith eto, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn ymarferol yn ceisio seilio'r

symiau y maen nhw'n eu codi ar gyfran pob Awdurdod Tân ac Achub o'r boblogaeth leol, i gyfyngu cynnydd mewn cyllid i'r isafswm y maen nhw'n ei gredu sy'n angenrheidiol, a rhoi sylw i unrhyw bryderon neu sylwadau gan awdurdodau lleol - ond does dim rheidrwydd iddyn nhw wneud hyn.

Awdurdod Lleol	Aelodau Awdurdod Tân ac Achub	Cyfraniad Cyllid 2016-17 (£000)
Conwy	5	5,277
Sir Ddinbych	4	4,364
Sir y Fflint	6	7,023
Gwynedd	5	5,598
Ynys Môn	3	3,191
Wrecsam	5	6,433
Cyfanswm Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	28	31,886
Sir Gaerfyrddin	5	9,172
Ceredigion	2	3,696
Castell-nedd Port Talbot	4	6,851
Sir Benfro	3	6,036
Powys	4	6,537
Abertawe	7	11,913
Cyfanswm Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	25	44,205
Blaenau Gwent	1	3,171
Pen-y-bont ar Ogwr	2	6,541
Caerffili	3	8,279
Caerdydd	5	16,776
Merthyr Tudful	1	2,748
Sir Fynwy	2	4,209
Casnewydd	2	6,892
Rhondda Cynon Taf	4	10,789
Torfaen	2	4,208
Bro Morgannwg	2	5,898
Cyfanswm Awdurdod Tân ac Achub De Cymru	24	69,511
Cyfanswm Cymru	77	145,602

Atebolrwydd a chraffu

- 1.8 Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y trefniadau hyn yn golygu nad yw Awdurdodau Tân ac Achub mor atebol ag y dylen nhw fod. Mewn unrhyw ddemocratiaeth, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fod yn atebol mewn modd eglur i'r rheini a wasanaethir ganddynt. Mae hynny'n sicrhau eu bod yn bodloni anghenion a disgwyliadau'r cyhoedd - ac y creffir arnynt, a'u herio, os nad ydynt yn eu bodloni. Dylai gyrff cyhoeddus felly

naill ai fod wedi eu hethol yn uniongyrchol (fel yn achos awdurdodau lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol); neu dylent fod yn atebol yn ffurfiol ac mewn modd eglur i gyrrff o'r fath.

- 1.9 Nid yw'r naill beth na'r llall yn wir am Awdurdodau Tân ac Achub. Er mai cynghorwyr etholedig yw eu haelodau, nid yw'r cynghorwyr hynny'n atebol i'w cyngor 'cartref' am eu gweithredoedd fel aelodau o Awdurdod Tân ac Achub. Yn wir, pan fônt yn gweithredu fel aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub, mae'n ddyletswydd arnynt i roi eu teyrngarwch i'w hawdurdod lleol o'r neilltu, ac yn hytrach weithredu yn unol â buddiannau'r Awdurdod Tân ac Achub. Nid yw aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn cynrychioli'r etholwyr i unrhyw raddau sylweddol chwaith. Dim ond oddeutu 6% o'r cynghorwyr yng Nghymru sy'n aelodau o Awdurdod Tân ac Achub, sy'n golygu mai dim ond cyfran fechan iawn o'r etholwyr sy'n cael eu cynrychioli ganddynt. Hyd yn oed pe bai'r ychydig bobl hynny yn ymwybodol fod eu cynghorydd wedi bod yn aelod o Awdurdod Tân ac Achub, ymddengys yn annhebygol y byddai hynny wedi effeithio rhyw lawer ar benderfyniadau pleidleisio ochr yn ochr â dylanwadau eraill megis gwasanaethau awdurdod lleol neu ymlyniad plaid. Ac nid oes unrhyw sicrwydd y byddai'r cyfryw gynghorydd, pe câi ei ailethol, yn cael ei ailbenodi i'r Awdurdod Tân ac Achub beth bynnag. Felly nid yw penderfyniadau'r Awdurdodau Tân ac Achub yn seiliedig ar unrhyw fath o fandad democrataidd, ac nid yw aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub yn atebol chwaith i'r etholwyr ar y cyfan am y penderfyniadau hynny.
- 1.10 Mewn awdurdodau lleol, caiff atebolrwydd democrataidd ei ehangu drwy rannu cyfrifoldebau rhwng cabinet, sy'n gwneud y penderfyniadau mwyaf, a'r pwyllgorau craffu, sy'n dwyn y cabinet i gyfrif. Nid yw'r gwahaniaeth hwnnw yn bodoli'n ffurfiol mewn Awdurdod Tân ac Achub, ac ni allai ychwaith. Mae'n dibynnu ar ethol aelodau ar fandad gwleidyddol: mae cabinet unrhyw gyngor fel arfer yn cynnwys grŵp y blaid sy'n rheoli neu glymblaid, gyda phwyllgorau craffu wedi eu llunio i roi cynrychiolaeth deg i bleidiau eraill. Ond nid oes gan aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub unrhyw fandad o'r fath i'r perwyl hwnnw.
- 1.11 Ar yr un pryd, nid yw'r Awdurdodau Tân ac Achub yn hollol atebol i sefydliadau cenedlaethol chwaith. Mae nifer o sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru, er enghraifft, yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, eu hunain yn atebol i Lywodraeth Cymru, a thrwy hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r berthynas honno fel arfer yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar gyllideb a natur polisi cyrff o'r fath, ac yn atebol am y penderfyniadau hynny i'r Cynulliad. Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth Cymru berthynas o'r fath ag Awdurdodau Tân ac Achub. Er ei fod yn pennu cyfeiriad strategol bras ar ffurf Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub, dim ond canllaw yw hynny y dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub "ei ystyried"; yr Awdurdodau Tân ac Achub yn unig sy'n gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol. Ac fel yr eglurir isod, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddylanwad o gwbl dros gyllidebau Awdurdodau Tân ac Achub
- 1.12 Mae'n wir fod mathau eraill o atebolrwydd yn bodoli yn y sector. Er enghraifft, mae swyddogion a rheolwyr Awdurdodau Tân ac Achub yn atebol i aelodau'r Awdurdodau hynny. Ond dim ond trefn fewnol yw hynny; mae diffyg eglurder ac annibyniaeth iddi, ac nid yw'n gyfystyr â'r atebolrwydd cyhoeddus a democrataidd a ddisgrifir uchod. Mae'n bosibl i Awdurdodau Tân ac Achub gael eu harchwilio hefyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, fel sy'n wir am holl gyrrff datganoledig Cymru. Mae hynny yn allanol, yn annibynnol ac yn dryloyw; ond mae wedi ei gyfyngu gan gylch gwaith statudol a

threfniant archwilio Swyddfa Archwilio Cymru. Er enghraifft, nid yw archwilwyr byth yn herio hanfod polisi neu benderfyniadau gwario unrhyw sefydliad, nac yn dadlau dros ddewisiadau amgen. Gallant ond ystyried y ffordd y gweithredwyd y penderfyniadau hynny, a sut y cânt eu hadlewyrchu yng nghyfrifon y sefydliad.

- 1.13 Efallai y byddai rhai pobl yn dweud bod diffyg atebolrwydd yn anghywir mewn egwyddor. Rydym yn cytuno: ond byddai hynny ynddo'i hun yn ddadl wan dros newid. Mae goblygiadau mwy ymarferol i'r problemau hyn, fodd bynnag, fel y gwelir isod.

Arloesi a newid

- 1.14 Diben atebolrwydd cyhoeddus yw bod sefydliadau a'i benderfyniadau yn dod wyneb yn wyneb ag ystod eang o safbwyntiau a dylanwadau. Drwy wneud hynny, dylai hynny ddilysu bod y sefydliad yn bodloni disgwyliadau ac anghenion cyhoeddus; a/neu herio hynny ac awgrymu gwahanol egwyddorion a ffyrdd o weithredu. Mewn gair, dylai helpu cyrff cyhoeddus i adnabod anghenion newidiol a ffyrdd arloesol o'u diwallu. Mae hynny'n ganolog i ddarparu unrhyw wasanaeth cyhoeddus, lle mae penderfyniadau ynghylch beth i'w ddarparu ac i bwy yn fater o bolisi cyhoeddus yn hytrach na mecanweithiau'r farchnad.
- 1.15 Mae pob un o'n Hawdurdodau Tân ac Achub wedi newid ac arloesi yn y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi cwblhau adolygiad trylwyr o wasanaethau tân rheng flaen; mae Awdurdodau Tân ac Achub y Gogledd a'r Canolbarth wedi trawsnewid eu trefniadau o ran eu criwiau; ac mae pob un o'r tri awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran arallgyfeirio'r gwasanaeth i fynd i'r afael ag ystod ehangach o beryglon a digwyddiadau nad ydynt yn gysylltiedig â tân. Mae hyn i gyd a llawer iawn mwy yn gadarnhaol ac yn ganmoladwy.
- 1.16 Fodd bynnag, mae absenoldeb trefniadau atebolrwydd cwbl effeithiol yn golygu nad yw'r datblygiadau hyn, ynghyd â rhai eraill, wedi bod yn destun trafod na chraffu trylwyr, nac wedi cael eu herio ychwaith. Mae'n berffaith bosibl y byddai gweithredu pellach neu mewn modd gwahanol wedi bod yn fwy priodol; neu fod cyfleoedd eraill yn cael eu colli neu anghenion eraill na cânt eu diwallu. Ni wyddom hynny, ac ni allwn wybod hynny.
- 1.17 Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y gydnabyddiaeth fod angen i'r Gwasanaeth Tân newid a bod yn fwy amrywiol ei swyddogaeth. Mae'r llwyddiant a gafodd y Gwasanaeth yn lleihau'r achosion o danau wedi creu posibilrwydd sylweddol i fynd i'r afael â mathau eraill o beryglon hefyd. Heb hynny, mae perygl y bydd y Gwasanaeth yn ysglyfaeth i'w lwyddiant ei hun. Ond, mae cydnabod y posibilrwydd hwnnw ac arwain y Gwasanaeth yn y cyfnod hwn o newid yn gofyn am ymwybyddiaeth fanwl iawn o anghenion a chyfleoedd ehangach. Mae hynny'n llai tebygol o ddigwydd tra caiff yr Awdurdodau Tân ac Achub eu rheoli fel pe baent yn wasanaethau trefol yn eu hawl eu hunain. Ni fu trafodaeth ynghylch swyddogaeth y Gwasanaeth Tân yn y dyfodol erioed yn bwysicach - ond nid yw'r trefniadau llywodraethu presennol yn cefnogi hynny.
- 1.18 Felly, credwn y dylai diwygio **greu arweinyddiaeth glir ac effeithiol o ran datblygu a darparu gwasanaethau tân ac achub, ac atebolrwydd ar gyfer hynny**. Yn benodol, dylai hyn gefnogi trafodaeth lawn ac agored am y posibilrwydd o arallgyfeirio'r gwasanaeth.

Adnoddau

- 1.19 Fel y nodwyd, mae'r rhan fwyaf o gyllid yr Awdurdodau Tân ac Achub yn dod o gyfraniadau gan yr awdurdodau lleol, gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub yn llwyr gyfrifol am bennu'r graddfeydd. Nid oes gan awdurdodau lleol na Llywodraeth Cymru unrhyw hawl i gydsynio i'r cyfraddau hynny. Mewn cymhariaeth, mae awdurdodau lleol yn cael y rhan fwyaf o'u cyllid gan Lywodraeth Cymru, sydd, yn ei dro, angen sêl bendith y Cynulliad i osod cyllideb. Caiff y rhan fwyaf o weddill cyllid pob awdurdod lleol ei godi drwy'r dreth gyngor, ac mae'r awdurdod a'i aelodau wrth gwrs yn uniongyrchol atebol i'r etholwyr am hyn.
- 1.20 Mae'r absenoldeb hwn o unrhyw ffurf o reolaeth allanol dros gyllidebau Awdurdodau Tân ac Achub yn unigryw yn sector cyhoeddus Cymru, a hyd y gwyddom ni, yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub ar y cyfan wedi gweithredu eu pwerau cyllidol mewn modd cyfrifol. Felly mae'r gost gyffredinol o ddarparu gwasanaethau tân ac achub wedi gostwng (er bod angen ystyried hynny ochr yn ochr â'r gostyngiad yn yr achosion a'r peryglon o dân hefyd). Fodd bynnag, ni fu cynnydd wastad mor gyflym ag y gallasai fod. Er enghraifft, mae dau o'n Hawdurdodau Tân ac Achub wedi bod yn araf iawn yn lleihau faint o achosion di-sail y maen nhw'n ymateb iddynt, sy'n llyncu adnoddau sylweddol iawn bob blwyddyn heb unrhyw fudd. Ac mae pob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub yn gwario llawer iawn o arian ers tro: mae'r gwariant y pen ar gyfer y tri yn y chwarterl uchaf ledled y Deyrnas Unedig, ac felly y bu hi ers peth amser.
- 1.21 Fel yn achos materion yn ymwneud ag arloesi, mae'r trefniadau presennol yn golygu bod cymhelliant grymus posibl i sicrhau gwerth am arian ar goll. Nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod Awdurdodau Tân ac Achub yn wastraffus; mae'n golygu nad ydym yn gwybod. Nid oes ffyrdd digonol chwaith o wirio neu herio penderfyniadau cyllidebol yr Awdurdodau Tân ac Achub. Ni waeth pa mor bwylllog neu ddarbodus y mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn dewis bod, ni all hynny barhau mewn cyfnod o bwysau sylweddol parhaus ar gyllid cyhoeddus – a fydd yn gwaethygu, mae'n siŵr, yn sgil Brexit.
- 1.22 Yn yr un modd, nid yw amrywio swyddogaeth y Gwasanaeth Tân yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn ei drefniadau cyllido. Yn fwy amlwg, yn 2016/17 roedd bron iawn 20% o bob galwad ddilys yr ymatebodd y Gwasanaeth iddynt, (heb gynnwys galwadau di-sail) yn cynnwys argyfyngau meddygol nad oedd a wnelo nhw â than. Mae gwaith atal a diogelwch hefyd yn gynyddol yn ymdrin â pheryglon iechyd nad oes a wnelo nhw â than, pethau fel syrthio neu gwmpo, ysmegu a deiet gwael.
- 1.23 Nod llawer o'r gwasanaethau hyn yw lleihau'r pwysau ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, naill ai drwy leihau damweiniau a chyflyrau y byddai fel arall angen triniaeth arnynt mewn ysbyty, neu drwy ymateb i argyfyngau meddygol ar ran y Gwasanaeth Ambiwylans. Ac mae gwaith ymchwil yn dangos y gallan nhw fod yn llwyddiannus tu hwnt yn hyn o beth, gydag un astudiaeth ddiweddar yn dangos arbedion o fwy na £4 i'r Gwasanaeth Iechyd am bob £1a fuddsodwyd mewn darpariaeth Gwasanaeth Tân. Eto i gyd, mae'r model cyllidol presennol yn golygu y caiff y gwasanaethau hyn sy'n berthnasol i'r maes iechyd eu hariannu gan gyllidebau awdurdodau lleol. Mae hynny yn anghywir mewn egwyddor. Mae'n golygu nad oes gan yr Awdurdodau Tân ac Achub gyllid cynaliadwy ar gyfer gwaith o'r fath, ac nad ydyn nhw ychwaith yn atebol am yr hyn

y maen nhw'n ei wario. Felly, **mae'n rhaid i ddiwygio gynnwys natur newidiol y gwasanaeth a darparu dulliau cyllido clir, teg a chynaliadwy ar ei gyfer.**

- 1.24 Mae'r gwasanaethau brys yn wahanol i'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'n rhaid iddyn nhw wastad fod ar gael i unrhyw un sydd eu hangen, ac ni all y rhai sy'n eu darparu ragweld y galw na chwaith ei reoli drwy ddefnyddio rhestrau aros neu ryw ddulliau cyffelyb. Caiff hynny effaith sylweddol ar bennu adnoddau a chyllidebu, sy'n gorfod ymateb i'r galw mwyaf ar unrhyw adeg benodol. **Mae angen i unrhyw ddiwygio gydnabod hynny, a sicrhau y caiff y safonau gwasanaeth rhagorol yr ydym ni'n eu mwynhau eu cynnal a'u gwella.** Ond ni all hynny fod yn ddadl yn erbyn rheolaeth briodol o arian cyhoeddus. Yn wir, mae'n cryfhau'r ddadl am fodel cyllido sy'n adlewyrchu'n llwyr y pwysau ar wasanaethau tân a'r sector cyhoeddus ehangach. Credwn y dylai diwygio **greu atebolrwydd allanol gwirioneddol ar gyfer penderfyniadau gwario a chyllidebu yr Awdurdodau Tân ac Achub, gan gydnabod y nodweddion penodol o ddarparu adnoddau ar gyfer y gwasanaethau brys.**

Aelodaeth

- 1.25 Ar hyn o bryd, mae aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub yn tueddu i fod yn gynghorwyr 'meinciau cefn', sydd wedi eu henwebu i'r swyddogaeth honno gan eu hawdurdodau lleol. Mae'r cyfryw gynghorwyr yn naturiol yn chwarae rhan werthfawr yn eu hawdurdodau gan roi llais i bryderon lleol a gweithredu'r mandad etholiadol sydd ganddyn nhw. Maen nhw hefyd yn helpu i sicrhau bod y cydbwysedd sy'n rhaid i bob awdurdod lleol ei gyflawni rhwng y gwasanaethau y maen nhw'n gyfrifol amdanynt yn adlewyrchiad teg o anghenion a barn dinasyddion a chymunedau.
- 1.26 Nid ydym yn argyhoeddedig fod swyddogaeth aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn galw am y nodweddion hyn, na'i bod yn cael ei chyflawni orau gan gynghorwyr meinciau cefn. Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn gyfrifol am un gwasanaeth yn unig, er bod hwnnw'n un sy'n newid ac yn amrywio. Mae arwain a rheoli'r gwasanaeth hwnnw yn aml yn fater technegol a chymhleth. Dim ond ar adegau prin iawn – pan fo materion fel cau gorsafoddd dan ystyriaeth – y mae materion hollol gymunedol neu wleidyddol lleol yn y fantol. Yn hytrach, mae arwain y Gwasanaeth yn effeithiol yn fater o gynnal safonau proffesiynol ac ymateb i newidiadau o ran peryglon a thechnoleg.
- 1.27 Ni ddylai fod unrhyw amheuaeth ynghylch ymrwymiad ac ymroddiad personol aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod ganddynt o reidrwydd yr holl gymwyseddau angenrheidiol i roi arweinyddiaeth strategol i'r Gwasanaeth neu i herio'r prif swyddogion, yn enwedig yn ystod yr amser hwn o newid y mae'r Gwasanaeth yn ei wynebu. Mae hynny hefyd yn gofyn am arbenigedd mewn rheoli gwasanaethau, newid sefydliadol ac mewn datblygu cydberthynas â darparwyr gwasanaethau eraill. Byddai'n fuddiol hefyd petai trefniadau llywodraethu'r Awdurdodau Tân ac Achub yn fwy cydnaws a chyson â rhai'r gwasanaethau eraill hynny y mae angen iddyn nhw gydweithio â nhw.
- 1.28 Felly, credwn y **dylai diwygio gynyddu arbenigedd a gallu'r Awdurdodau Tân ac Achub i ddarparu arweinyddiaeth strategol, i gynnal cydweithio effeithiol ac i ddwyn uwch swyddogion i gyfrif.** Ni ddylai hynny, fodd bynnag, fod ar draul gwybodaeth ac atebolrwydd lleol.

1.29 Er bod y gwasanaethau tân ac achub yn hanfodol, maen nhw'n gymharol fach. Rhwng popeth, maent yn cyfrif am ddim ond oddeutu 1% o'r holl wariant datganoledig; ac nid oes angen i'w trefniadau llywodraethu fod yn eang nac yn gymhleth. Er enghraifft, efallai fod modd lleihau eu haelodaeth. Fel y dengys y tabl isod, mae gan yr Awdurdodau Tân ac Achub aelodaeth gymharol uchel o'u cymharu â chyrff eraill, er gwaethaf natur pur gyfyngedig eu cyfrifoldebau.

Math o fudiad	Cyllideb Refeniw	Nifer aelodau
Awdurdodau Lleol (x22)	£149 miliwn i £813 miliwn	30 i 76
Byrddau Iechyd (x7)	£285 miliwn i £1.43 biliwn	20 i 25
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru	£174 miliwn	13
Cyfoeth Naturiol Cymru	£182 miliwn	11
Awdurdodau Tân ac Achub (x3)	£34 miliwn i £74 miliwn	24 i 28

1.30 Fel yr ydym ni wedi dadlau, nid yw aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cynrychioli'r etholwyr, ac nid oes ganddyn nhw fandad i'w weithredu. O'r herwydd, nid ydym yn credu bod modd cyfiawnhau'r graddau hyn o gynrychiolaeth: mae'n cynyddu cost a chymhlethdod llywodraethu heb unrhyw fudd amlwg. **Byddai'n well i aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub fod yn llai niferus, ond bod ganddynt gylch gwaith cliriach a'r gallu i'w weithredu.**

Rheoli perfformiad

1.31 Mae'r problemau a nodwyd uchod yn ymwneud â'r trefniadau cyllido a llywodraethu statudol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub. Ar hyn o bryd mae'r ffyrdd y mae'n ofynnol i'r Awdurdodau Tân ac Achub reoli eu perfformiad ac adrodd arno yn gwneud hynny'n waeth. Maent i'w gweld ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, sy'n ymdrin ag Awdurdodau Tân ac Achub – a'r awdurdodau Parc Cenedlaethol - yn yr un modd ag awdurdodau lleol.

1.32 Yn fras, mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdodau Tân ac Achub wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau. Mae'n rhaid i'r trefniadau hynny gynnwys:

- Ffurio ac ymgynghori ar 'amcanion gwella' blynyddol, h.y. blaenoriaethau gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod;
- Casglu dada perfformiad meintiol a mathau eraill o wybodaeth sy'n dangos i ba raddau y caiff yr amcanion hynny eu cyflawni;
- Adrodd yn gyhoeddus ar ôl diwedd y flwyddyn am y cynnydd o ran cyflawni amcanion gwella; ac
- Archwiliad blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru o'r graddau y mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi cydymffurfio â'r Mesur.

1.33 Fodd bynnag, lluniwyd y trefniadau hyn yn bennaf ar gyfer awdurdodau lleol. Maen nhw'n wynebu heriau gwahanol iawn i'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am nifer o wasanaethau, pob un yn diwallu anghenion gwahanol ar gyfer gwahanol bobl neu ardaloedd. Mae gan ei aelodau gyfrifoldebau etholiadol i'w

gweithredu hefyd. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i bob awdurdod gydbwysu gofynion a disgwyliadau cyferbyniol, a phennu blaenoriaethau'n unol â hynny – a dyna pam y ceir y math o drefniadau a amlinellir gan Fesur 2009.

- 1.34 Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub, mewn cymhariaeth, yn darparu amrywiaeth fach yn unig o wasanaethau ac nid oes ganddyn nhw unrhyw fandad uniongyrchol gan yr etholwyr. Fel y nodwyd uchod, ni allant reoli'r galw am eu gwasanaethau ymateb brys creiddiol – mae angen iddynt ddarparu'r gwasanaethau hynny yn ôl yr angen, unrhyw le, unrhyw bryd. Felly nid yw'r cysyniad o gydbwysu galwadau a phennu blaenoriaethau yn bodoli i'r un graddau ag yn achos yr awdurdod lleol. Mae hyn yn gwneud gofynion y mesur yn feichus ac yn or-gymhleth yng nghyd-destun Awdurdod Tân ac Achub. At hynny, nid yw rhai o'r technegau y mae'r Mesur yn eu mynnu yn arbennig o ddefnyddiol. Er enghraifft, nid yw'n bosibl defnyddio dangosyddion perfformiad i asesu effeithiolrwydd rhaglenni diogelwch neu atal tân, oherwydd byddai hynny'n golygu ceisio mesur digwyddiadau na ddigwyddodd.
- 1.35 Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi y bydd y Mesur yn cael ei ddiddymu. Credwn y **dylai mesur perfformiad newydd adlewyrchu'n well yr heriau a'r cyd-destunau gweithredu penodol y mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn eu hwynebu**. Wrth wneud hynny, mae angen cymaint â phosibl o atebolrwydd, ond cyn lleied â phosibl o feichiau, a dylai adlewyrchu gofynion cynllunio ac adrodd perthnasol ar yr Awdurdod Tân ac Achub, megis dan Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cynnal gwasanaethau rheng flaen

- 1.36 Mae a wnelo'r holl faterion hyn â llywodraethu corfforaethol yr Awdurdodau Tân ac Achub, nid â gwasanaethau rheng flaen. Wrth gwrs, bydd cryfhau llywodraethu yn helpu i gynnal a gwella gwasanaethau rheng flaen. Bydd y ddadl dros newid a amlinellwyd gennym yn y bennod hon yn cynnig arweinyddiaeth gliriach a mwy atebol, trafodaeth fwy agored ynghylch blaenoriaethau ar gyfer y Gwasanaeth, a dealltwriaeth lawnach o'r anghenion y mae angen iddo eu diwallu.
- 1.37 Fodd bynnag, yn amlwg mae angen cynnal gwasanaethau ymatebol ac ataliol rheng flaen yn ystod unrhyw gyfnod o newid. Mae'n rhaid osgoi tarfu ac amharu diangen ar bob cyfrif. Felly, **mae'n rhaid i'r broses ddiwygio fod mor gyfyngedig ei chwmpas â phosibl**, ond gan gyflawni'r amcanion yr ydym ni yn dymuno eu cyflawni.
- 1.38 Mae newid sefydliadol yn aml yn gwneud y staff i deimlo'n anesmwyth, yn enwedig os ydyn nhw'n pryderu y gall arwain at gollu swyddi neu'n effeithio ar eu gwaith. Nid yw hyn yn wir yn yr achos hwn. Mae pwyslais y diwygio yn gyfan gwbl ar sut mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub wedi eu strwythuro a'u hariannu ac yn cael eu dwyn i gyfrif yn gorfforaethol. **Nid oes a wnelo'r cynllun diwygio hwn o gwbl â newidiadau i wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys niferoedd diffoddwyr tân, dyfeisiau neu orsafoedd tân, neu faterion gweithredol eraill megis criwiau, amserlennu neu lenwi cerbydau.**

Crynodeb o'r amcanion ar gyfer diwygio

Drwy ddiwygio trefniadau presennol llywodraethu, cyllido a rheoli perfformiad yr Awdurdodau Tân ac Achub, dylid cyflawni'r canlynol:

- ***Gwarchod y safonau gwasanaeth uchel presennol a chaniatáu i'r Gwasanaeth Tân gynnal a gwella hynny gymaint â phosibl.***
- ***Creu arweinyddiaeth glir ac effeithiol o ran datblygu a darparu gwasanaethau tân ac achub, ac atebolrwydd ar gyfer hyn.***
- ***Creu atebolrwydd allanol gwirioneddol ar gyfer penderfyniadau gwario a chyllidebu'r Gwasanaethau Tân ac Achub, gan gydnabod yr agweddau penodol o ddarparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau brys.***
- ***Ymgorffori swyddogaeth newidiol y gwasanaeth a darparu dulliau cyllido clir, teg a chynaliadwy.***
- ***Gwella arbenigedd a gallu'r Awdurdodau Tân ac Achub i ddarparu arweinyddiaeth strategol, parhau i gydweithio'n strategol a dwyn uwchswyddogion i gyfrif.***
- ***Aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub i fod yn llai niferus, ond bod ganddynt gylch gwaith cliriach a'r gallu i'w gyflawni.***
- ***Cynnwys system rheoli perfformiad newydd a ddylai adlewyrchu'n well y sefyllfaoedd a'r heriau y mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn eu hwynebu.***
- ***Bod â chwmpas mor gyfyngedig â phosibl, ac osgoi unrhyw newidiadau i wasanaethau neu adnoddau rheng flaen.***

Cwestiynau i ymgynghori arnynt – y ddadl dros newid:

1. **A ydych chi'n cytuno bod yr amcanion ar gyfer diwygio yn briodol ac yn bwysig?**
2. **A oes amcanion eraill y dylai'r cynllun diwygio roi sylw iddynt?**

PENNOD 2

Dylunio system newydd

- 2.1 Amlinellodd y bennod flaenorol y ddadl dros ddiwygio'r ffordd y caiff Awdurdodau Tân ac Achub eu llywodraethu a'u cyllido, ac amcanion cyffredinol gwneud newid o'r fath. Mae'r bennod hon yn amlinellu elfennau hanfodol system ddiwygiedig, a thrwy wneud hynny yn diystyru rhai opsiynau sy'n ddamcaniaethol bosibl, gan gyfeirio at rai eraill y mae'r penodau nesaf yn eu harchwilio'n fanylach.

Gwasanaeth penodol

- 2.2 Mae cydnabyddiaeth eang i'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Ystyrir diffoddwyr tân yn bobl fedrus a chymdeithasgar sydd wedi eu breinio ag elfen o barch nad yw gweithwyr proffesiynol a gweithwyr eraill sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol yn aml yn ei fwynhau. Mae hynny'n ganolog i lawer o'r gwaith i ehangu ei swyddogaeth. Er enghraifft, mae rhaglenni i fynd i'r afael â chynnau tanau bwriadol a mathau eraill o droseddu yn aml yn gweithio oherwydd nad ystyrir bod y diffoddwyr tân sy'n eu cynnal yn gysylltiedig â gorfodi'r gyfraith. Yn wir, mae'n bosibl y byddai'r rheini a allai wrthsefyll dylanwad pobl mewn awdurdod megis swyddogion yr heddlu neu athrawon fod yn fwy parod i dderbyn yr un negeseuon gan ddiffoddwyr tân. Yn fwy cyffredinol, mater hawdd iawn yw ehangu ac addasu'r sgiliau a'r prosesau craidd sydd gan ddiffoddwyr tân i ymdrin ag argyfyngau eraill.
- 2.3 Credwn ei bod yn bwysig cynnal 'brand' y Gwasanaeth Tân ac Achub a sgiliau a gwerthoedd craidd diffoddwyr tân. Mae hynny'n golygu y dylai **Awdurdodau Tân ac Achub barhau i fod yn endidau penodol ac ar wahân**. Dylai fod ganddynt eu trefniadau llywodraethu a chyllido eu hunain, er y bydd angen diwygio'r rhain fel y gallant gydweithio â sefydliadau eraill.
- 2.4 Yn hynny o beth, **nid ydym yn cefnogi y dylid trosglwyddo'r gwasanaethau tân ac achub i fod dan reolaeth y Comisiynwyr Heddlu a Throseddwyr**, fel sy'n digwydd mewn rhannau o Loegr. Er bod yn rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub weithio'n agos gyda'r Heddlu, ac mae hynny'n digwydd, byddai trosglwyddiad ffurfiol o reolaeth yn peryglu hunaniaeth benodol y Gwasanaeth. Ni allem chwaith dderbyn gwasanaeth sydd wedi ei ddatganoli yn dod dan reolaeth deiliaid swyddogaethau nad ydyn nhw wedi eu datganoli, megis y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd. A beth bynnag, dim ond Heddlu Gogledd Cymru sy'n gwasanaethu'r un ardal â'r Awdurdod Tân ac Achub
- 2.5 Hefyd, ni fyddem chwaith yn cefnogi y dylid trosglwyddo rheolaeth o'r Gwasanaeth yn ôl i'r awdurdodau lleol, er bod rhesymau eraill dros hyn hefyd (gweler isod).

Gwasanaeth lleol

- 2.6 Ym mhob gwlad bron yn y byd datblygedig, caiff gwasanaethau tân ac achub eu rheoli a'u darparu ar lefel leol neu daleithiol/ranbarthol, yn hytrach nag yn genedlaethol¹. Mae hanes hir iawn i hyn - mae'r gwasanaethau tân ymysg y gwasanaethau cyhoeddus

¹ Eithriad hysbys yw'r Eidal, lle sefydlwyd un gwasanaeth cenedlaethol unigol ym 1941, ac yn fwy diweddar yr Alban (yn 2013) a Seland Newydd (yn 2017). Mae rhai gwledydd, fel Rwsia a Gwlad Pŵyl, hefyd yn cynnal gwasanaethau cenedlaethol unigol a grëwyd yn y cyfnod Sofietaidd.

hynaf yn y byd - ond mae rhesymau cadarnhaol hefyd dros reolaeth ar y lefel hon. Er hynny, fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, nid yw gwleidyddiaeth leol na materion cymunedol yn aml yn rhan o fusnes yr Awdurdodau Tan ac Achub. Fodd bynnag, mae cynllunio a darparu gwasanaethau tân ac achub effeithiol yn ddibynnol ar wybodaeth fanwl a thrylwyr o beryglon lleol penodol. Er enghraifft, mae'n rhaid i bob un o'n tri Awdurdod Tân ac Achub reoli'r peryglon tân penodol a gwahanol iawn ym Mhorthladd Caerdydd, purfeydd olew Aberdaugleddau â'r adeiladau uchel sy'n britho Caerdydd, ynghyd â llawer iawn o beryglon amrywiol wedi eu creu gan amodau tai lleol, datblygiadau diwydiannol, patrymau poblogaeth neu ffactorau amgylcheddol, topograffig a hinsoddegol.

- 2.7 Ar yr un pryd, mae angen gweithlu helaeth a hynod fedrus ar wasanaeth tân ac achub cynhwysfawr ac ystod eang o gerbydau arbenigol a chyfarpar eraill. Ym 1995, pan grëwyd yr Awdurdodau Tân ac Achub presennol, teimlwyd na ellid ond diwallu'r anghenion hyn gan sefydliadau ar y raddfa sydd gennym ni nawr. Mae hynny'n wir iawn heddiw - mae technoleg wedi datblygu'n sylweddol ers 1995, ac mae swyddogaeth y Gwasanaeth yn parhau i ehangu. Nid oes angen i'r cymwyseddau mwyaf arbenigol, megis y rhai ar gyfer ymdrin ag achub o'r dŵr, ymosodiadau terfysgol neu dannau mewn adeiladau uchel, fodoli mewn dim ond ambell un o'n gorsafoedd tân, fel y mae ar hyn o bryd. Ni fyddai'n bosib i sefydliadau llai gynnal yr ystod hon o wasanaethau, heb sôn am eu hehangu i ardaloedd newydd.
- 2.8 O ganlyniad, credwn **y dylid parhau â'r patrwm presennol o gael tri Awdurdod Tan ac Achub**. Maent yn ddigon bach i feddu ar yr wybodaeth fanwl o amgylchiadau a pheryglon lleol sydd eu hangen arnynt, ond yn ddigon mawr i gynnal yr ystod o gymwyseddau y mae eu swyddogaeth yn galw amdano. Felly **nid ydym yn cefnogi creu un Gwasanaeth Tân unigol i Gymru**, fel yr un a grëwyd yn yr Alban yn 2013. Hyd yn oed os gellid gwneud hynny yn gyflym ac yn rhad – ac mae tystiolaeth o'r Alban yn awgrymu na ellid gwneud hynny – byddai'n golygu colli gwybodaeth a rheolaeth leol, ac ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael ag unrhyw un o'r amcanion a nodwyd yn y bennod flaenorol.
- 2.9 Mae hyn hefyd yn golygu **na all gwasanaethau tân ac achub ddychwelyd i reolaeth awdurdodau lleol**, fel yr oedden nhw cyn 1995, ac fel y maen nhw o hyd mewn rhai o siroedd mwyaf Lloegr. Mae pob un o'n hawdurdodau lleol yn llawer rhy fach i allu darparu gwasanaeth tân ac achub cynhwysfawr ac effeithlon. Byddai'n rhaid iddyn nhw rannu adnoddau, gan ail-greu'r drefn sydd gennym ni ar hyn o bryd i bob pwrpas.
- 2.10 Yn yr un modd, credwn **nad oes unrhyw ddadl dros newid ffiniau presennol yr Awdurdodau Tân ac Achub**. Mae rhai wedi dadlau dros hyn, yn enwedig symud ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i Awdurdod y De. Byddai hyn yn creu Awdurdodau Tân ac Achub mwy cydnaws ar gyfer de Cymru, sy'n drefol ei natur, a chanolbarth a gorllewin Cymru, sy'n wledig. Byddai hefyd yn cysoni ffiniau'r Awdurdodau Tân ac Achub â rhai'r Heddlu. Nid oes tystiolaeth fod y ffiniau presennol yn creu unrhyw broblemau penodol, felly does dim sail dros eu newid.

Dimensiwn cenedlaethol

- 2.11 Er ein bod yn credu y dylid parhau â threfniant presennol yr Awdurdodau Tân ac Achub, mae agweddau hefyd ar eu gwaith sy'n fwy seiliedig ar ffactorau cenedlaethol a rhyngwladol. Er enghraifft, mae tueddiadau hirdymor o ran peryglon wedi eu dylanwadu'n drwm gan faterion megis heneiddio, cynni, newid yn yr hinsawdd a thwristiaeth, sydd yn amlwg yn croesi ffiniau'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mae rhai o swyddogaethau hynod arbenigol yr Awdurdodau Tân ac Achub - y cymwyseddau 'cydnerthedd cenedlaethol'² fel y'u gelwir nhw – eisoes yn cael eu rheoli a'u cyllido ar lefel Cymru gyfan, i gydnabod y graddau o arbenigedd sydd ynghlwm â nhw a lefel y bygythiadau y'u dyluniwyd i fynd i'r afael â nhw. Mae gwneud y Gwasanaeth yn fwy amrywiol ei swyddogaeth, yn enwedig i gefnogi'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, hefyd yn ymwneud â pholisïau ac amcanion cenedlaethol yn y meysydd hynny. Gall y rhain, yn eu tro, effeithio ar dâl ac amodau'r diffoddwyr tân – mater y mae pob llywodraeth yn y DU yn cael eu hunain yn rhan ohono yn gynyddol.
- 2.12 Mae'r berthynas bresennol rhwng Awdurdodau Tân ac Achub a Llywodraeth Cymru yn gymhleth. Mae Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cynnwys amcanion a blaenoriaeth ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub, ac mae modd i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Awdurdodau hynny nad ydyn nhw'n gweithredu yn unol â hynny. Ond dim ond canllawiau yw'r rhain y dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub 'eu hystyried.' Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth o gwbl dros gynlluniau, perfformiad a chyllidebau'r Awdurdodau Tân ac Achub.
- 2.13 O ganlyniad, er y dylai rheolaeth barhau i raddau helaeth ar y lefel bresennol, credwn y **dylai trefniadau newydd adlewyrchu hefyd y buddiannau cenedlaethol cyfyngedig ond dilys yn natblygiad a darpariaeth y Gwasanaeth.** Efallai y byddai'n fwy priodol i hynny gynnwys egluro a thynhau statws presennol y Fframwaith Cenedlaethol a'r trefniadau rheoli perfformiad perthnasol. Ni chawsom ein hargyhoeddi y byddai unrhyw gyfiawnhad i'r llywodraeth ymwneud yn helaeth ac yn uniongyrchol â llywodraethu beunyddiol y Gwasanaeth.

Rhoi newid ar waith

- 2.14 Mae'n debyg y gellir gwneud y rhan fwyaf o'r newidiadau a argymhellir yn y ddogfen hon drwy addasu *gorchmynion cyfunol* yr Awdurdodau Tân ac Achub – yr offerynnau statudol a sefydlodd y rhain ac sy'n egluro eu trefniadau llywodraethu a chyllid presennol. Mae gan Weinidogion Cymru y pwerau i wneud hynny drwy orchymyn. Ymddengys y byddai angen Deddf gan y Cynulliad ar gyfer rhai newidiadau posibl, ac mae'r ddogfen hon yn nodi'r rheini hefyd.

² Mae'r prif gymwyseddau yn berthnasol i'r rheini sy'n ymdrin â llifogydd mawrion; chwilio ac achub trefol (mewn adeiladau sydd wedi dymchwel ac ati); digwyddiadau cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear; ac ymosodiadau terfysgol.

Cwestiynau i ymgynghori arnynt – dylunio system newydd:

- 3. A ydych chi'n cytuno y dylai Awdurdodau Tân ac Achub barhau i fod yn endidau ar wahân a phenodol, gyda'r un ffiniau ag sydd ganddynt ar hyn o bryd?**
- 4. A ydych chi'n cytuno na fyddai'n briodol trosglwyddo rheolaeth dros y gwasanaethau tân ac achub i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu neu awdurdodau lleol?**
- 5. A ydych chi'n cytuno bod buddiannau cenedlaethol dilys ond cyfyngedig yn y Gwasanaeth y mae angen eu hadlewyrchu yn ei drefniadau llywodraethu?**

PENNOD 3

Newidiadau posib (1): Llywodraethu ac aelodaeth

- 3.1 Roedd y bennod flaenorol yn egluro bod angen parhau â strwythur presennol y tri Awdurdod Tân ac Achub, a hynny er mwyn cydbwysu gwybodaeth leol â'r raddfa angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon. Mae'r bennod hon yn egluro, o fewn y strwythur hwnnw, sut y dylid newid aelodaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub i fodloni amcanion y diwygio.

Ffynonellau aelodaeth

- 3.2 Caiff aelodau cyrff cyhoeddus (ar wahân i'r rheini sydd wedi eu hethol yn uniongyrchol) fel rheol eu henwebu neu eu penodi i'w swyddogaethau gan sefydliadau neu ddeiliaid swyddi eraill. Mae tri dewis cyffredinol ar gyfer hynny yn achos Awdurdodau Tân ac Achub
- Gallai awdurdodau lleol barhau i enwebu cynghorwyr i fod yn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub.
 - Gallai Gweinidogion Cymru benodi pobl i fod yn aelodau ar sail teilyngdod, yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored.
 - Gallai'r aelodaeth fod yn gymysg, gyda rhai aelodau wedi eu henwebu gan awdurdodau lleol ac eraill wedi eu penodi gan Weinidogion Cymru.
- 3.3 Byddai enwebu cynghorwyr yn cadw arweinyddiaeth wleidyddol yr Awdurdodau Tân ac Achub fel y mae ar hyn o bryd, a gallai roi gwell atebolrwydd i gymunedau lleol. I'r gwrthwyneb, byddai penodiadau gan Weinidogion Cymru yn torri'r cyswllt hwnnw - byddai'r atebolrwydd wedyn i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad. Ond mae'n debyg y byddai'n cynyddu'r arbenigedd ymysg aelodau, a fyddai'n cael eu penodi oherwydd eu sgiliau a'u profiadau. Byddai aelodaeth gymysg, wrth gwrs, yn cyfuno'r nodweddion hyn.
- 3.4 Rhwng popeth, **credwn y dylai awdurdodau lleol barhau i enwebu aelodau.** Byddai hynny'n fwy cyson â'r angen am wybodaeth ac atebolrwydd lleol a ddisgrifiwyd gennym yn y bennod ddiwethaf. Er bod penodi 'arbenigwyr' yn ddeniadol iawn, ni chredwn y byddai'n briodol i'r hyn a fu erioed yn wasanaeth lleol fod yn atebol i Lywodraeth Cymru yn unig. Efallai fod aelodaeth gyfun yn ymddangos yn ddeniadol a gallai gyfuno manteision y ddau ddewis arall. Ond gallai ddrysu atebolrwydd, cymhlethu'r broses gwneud penderfyniadau a chynyddu maint yr aelodaeth angenrheidiol.
- 3.5 Serch hynny, mae angen gwneud rhai newidiadau pwysig o hyd.

Nifer yr aelodau

- 3.6 Fel y disgrifiwyd ym mhennod 1, mae bron yn sicr fod gan yr Awdurdodau Tân ac Achub fwy o aelodau na'r hyn sydd ei angen arnynt. Nid yw'r aelodau hynny'n cynrychioli'r etholwyr mewn unrhyw ffordd ystyrlon, felly nid oes angen cynrychiolaeth ar y raddfa hon - nac yn gymesur â phoblogaeth yr awdurdod lleol. Y cyfan a wna aelodaeth rhy fawr yw cymhlethu a pheri oedi i'r broses gwneud penderfyniadau effeithiol - a chwyddo'r costau drwy gyflogau a threuliau'r aelodau.

- 3.7 Felly, rydym yn cynnig y **dylai pob awdurdod lleol enwebu un aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub**, ni waeth beth fo'i boblogaeth. Byddai hynny'n golygu y byddai nifer yr aelodau enwebedig yn lleihau i 10 yn Ne Cymru ac i 6 yr un yn y Gogledd a Chanolbarth a Gorllewin Cymru.

Mathau o aelodau

- 3.8 Ar hyn o bryd, caiff aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub eu henwebu bron yn ddiethriad o rengoedd y cynghorwyr 'meinciau cefn' – h.y. y rhai nad ydynt yn aelodaeth o weithrediaeth cyngor neu yn gadeiryddion pwyllgorau craffu neu archwilio. Dywedir fod hyn oherwydd na chaniateir i'r cynghorwyr sydd â'r cyfryw swyddogaethau gael unrhyw gyflog ychwanegol fel aelod o Awdurdod Tân ac Achub, tra nad oes unrhyw gyfyngiadau o'r fath ar gynghorwyr meinciau cefn.
- 3.9 Nid ydym yn amau ymroddiad yr aelodau presennol. Ond mae'r dull hwn i bob pwrpas yn golygu y byddai'r ffordd y caiff y gwasanaethau tân ac achub eu llywodraethu yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd yn yr holl wasanaethau lleol eraill. Nid yw hynny'n fanteisiol i gydweithio effeithiol rhwng yr Awdurdodau Tân ac Achub a darparwyr y gwasanaethau eraill hynny, neu i graffu'n effeithiol ar hynny.
- 3.10 Un dewis addawol fyddai y **byddai'n rhaid i bob aelod enwebedig o Awdurdod Tân ac Achub fod yn aelod o gabinet eu cyngor**, wedi ei benodi gan yr Arweinydd yn y ffordd arferol. Byddent yn dod ynghyd fel Awdurdod Tân ac Achub gweithredol a fyddai'n gwneud penderfyniadau, gan gyflawni swyddogaethau tebyg i'r hyn y maent yn ei wneud yn eu hawdurdod 'cartref'. A byddent yn fwy abl i feithrin cysylltiadau rhwng y gwasanaethau tân ac achub a gwasanaethau lleol eraill y byddent hwy a'u cyd-aelodau cabinet yn gyfrifol amdanynt.
- 3.11 I hwyluso newid o'r fath, efallai y bydd angen cael gwared ar y gwaharddiad presennol sy'n atal aelodau cabinet rhag cael cyflog ychwanegol fel aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am ystyried cyflogau cynghorwyr ac aelodau cabinet. Hefyd, efallai y bydd angen cynyddu'r trothwy statudol presennol ar faint cabinet awdurdod (9 aelod a'r Arweinydd). Byddai angen inni ystyried hyn yng ngoleuni'r amser sydd ar gael i aelodau cabinet gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gellid llunio cabinetau'r dyfodol i gynnig cyfleoedd rhannu swyddi yn y cabinet. Byddem yn croesawu sylwadau ar y pwyntiau hyn.

Craffu a herio

- 3.12 O dan y model hwn, byddai gan bob aelod enwebedig swyddogaeth weithredol, yn yr Awdurdod Tân ac Achub a hefyd yn ei awdurdod 'cartref'. Dylai hynny gryfhau a rhoi eglurder i arweinyddiaeth strategol a chysylltiadau â gwasanaethau eraill. Ond ni fyddai hynny ar ei ben ei hun yn gwella atebolrwydd yr Awdurdod Tân ac Achub fel cyfanwaith. Efallai y câi'r aelodau unigol eu dwyn i gyfrif yn eu hawdurdodau 'cartref', ond ni fyddai hynny o reidrwydd yn cynnwys eu swyddogaethau fel aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub, ac ni fyddai chwaith yn berthnasol i'r holl Awdurdod Tân ac Achub
- 3.13 Fel yr eglurwyd yn y bennod gyntaf, mae model craffu'r awdurdodau lleol yn ddibynnol ar gael gweithrediaeth wleidyddol ar wahân gyda mandad i'w gyflawni. Nid yw ac ni all

weithio yng nghyd-destun Awdurdod Tân ac Achub. Mae angen ffordd arall o ddwyn yr Awdurdod Tân ac Achub i gyfrif a herio'r ffordd y mae'n gwneud ei benderfyniadau mewn modd cadarnhaol.

- 3.14 Caiff un ffordd o wneud hyn eisoes ei ddefnyddio'n helaeth yn y sectorau preifat a gwirfoddol. Mae'n cynnwys penodi aelodau ychwanegol (ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr neu gyffelyb) fel rhai anweithredol. Nid yw'r cyfryw aelodau yn gwneud penderfyniadau; yn hytrach, maent yn cyngori ac yn herio'r rhai sydd yn gwneud hynny. Caiff aelodau anweithredol eu penodi fel rheol oherwydd yr wybodaeth neu'r profiad penodol y byddent yn dod gyda nhw i'r swyddogaeth ac i'r sefydliad yn gyffredinol.
- 3.15 Credwn y byddai gweithredu yn y fath fodd yn gweithio'n dda i bob Awdurdod Tân ac Achub. Byddai'n fodd o graffu a herio heb gyfaddawdu ar reolaeth leol, ac yn cynyddu'r arbenigedd fyddai ar gael i bob Awdurdod Tân ac Achub. Felly, rydym yn cynnig y **dylai Awdurdodau Tân ac Achub gael aelodau anweithredol hefyd**. Dylent gynorthwyo yn hytrach na rhwystro'r broses o wneud penderfyniadau, felly ni ddylai fod gormod ohonynt. Rydym ni'n awgrymu y dylai nifer yr aelodau anweithredol gyfateb i 25% o nifer gostyngol y cyngorwyr, fel yr amlinellir uchod, gan dalgrynnu i fyny (h.y., 3 yn Ne Cymru a 2 bob un yn y Gogledd ac yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru).
- 3.16 Y ffordd symlaf o fynd ati fyddai i **Weinidogion Cymru benodi aelodau anweithredol ar sail cystadleuaeth agored a theg**. Ni fyddai hynny'n gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yn atebol mewn modd afresymol i Lywodraeth Cymru, oherwydd ni fyddai aelodau anweithredol yn gwneud penderfyniadau. Er hynny, byddai'n sicrhau cysondeb yng Nghymru a gallai ddenu mwy o ymgeiswyr, a rhai o safon well hefyd. Fodd bynnag, byddem yn fodlon i'r Awdurdodau Tân ac Achub benodi eu haelodau anweithredol eu hunain, ar yr amod bod proses a meini prawf wedi'u cytuno ar gyfer hyn.
- 3.17 Byddai hyn yn cyflwyno elfen o herio penderfyniadau'r Awdurdod Tân ac Achub, ond nid yw'n creu'r math o atebolrwydd allanol llawn a ragwelwyd gennym ym mhennod 1. Byddai gwneud hynny'n golygu newidiadau sylfaenol i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub, ac ni fyddant yn bosibl yn y dyfodol agos.
- 3.18 Fodd bynnag, pe byddai newid deddfwriaethol yn bosibl, a phan fyddai hynny'n digwydd, credwn mai'r ffordd orau o greu atebolrwydd fyddai gwahanu swyddogaeth yr Awdurdod Tân ac Achub a swyddogaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub ei hun. Byddai'r Gwasanaeth yn gyfrifol yn ffurfiol am bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau. Yn ben arno byddai Prif Swyddog Tân Statudol a fyddai'n meddu ar yr holl swyddogaethau o ddarparu gwasanaethau sydd gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar hyn o bryd, ynghyd â'r grym i gyflogi staff a bod yn berchen ar asedau. Byddai'r Awdurdod Tân ac Achub, mewn cymhariaeth, yn dal y Prif Swyddog Tân a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i gyfrif. Ni fyddai'n gwneud penderfyniadau ar ei ben ei hun, ond byddai'n cadarnhau'r penderfyniadau pwysicaf megis pennu cyllideb, cyhoeddi cynllun strategol neu wneud newidiadau sylweddol i allu rheng flaen.
- 3.19 Byddai'r model hwn, yn ein tyb ni, yn adlewyrchu'r realiti o redeg gwasanaeth brys yn y ffordd orau. Gellid dadlau y byddai i'n well gadael y penderfyniadau beunyddiol i'r bobl broffesiynol, gydag aelodau'n fwy cymwys i graffu ar y rheini sy'n gyfrifol, a'u herio hefyd. Byddai gwahanu'r ddau yn sicrhau atebolrwydd llawn ac annibynnol, gan ryddhau uwch swyddogion i arwain a goruchwylio'r Gwasanaeth. Dyna a wnaed yn yr

Heddlu am flynyddoedd lawer, lle'r oedd gan y Prif Gwnstabl berthynas debyg gyda'r Awdurdod Heddlu.

- 3.20 O dan y model hwn, ni fyddem yn gweld unrhyw angen penodol i newid trefniadau cyffredinol yr Awdurdod Tân ac Achub a ddisgrifiwyd uchod. Fodd bynnag, efallai y byddai angen sgiliau gwahanol i herio a chraffu, ac efallai y byddai'n briodol i awdurdodau lleol enwebu (er enghraifft) uwch aelodau craffu yn hytrach nag aelodau gweithredol. Byddem yn croesawu sylwadau ynglŷn â'r pwynt hwn, ac ynglŷn â'r diwygio mwy hirdymor yr ydym ni wedi ei gynnig yn fwy cyffredinol.
- 3.21 Er mai trefniant fel hyn y byddem yn dymuno ei weld yn ddelfrydol, mae canlyniadau diwygio yn llawer pwysicach na'r manylion. **Felly byddem yn fodlon iawn ystyried cynigion eraill o ran llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub** yn ogystal â'r rhai sydd wedi eu hamlinellu (neu eu gwrthod) yn y bennod hon. Mae'n rhaid i unrhyw gynigion o'r fath, fodd bynnag, ddangos eu bod yn cyflawni'r meini prawf a nodwyd ym Mhenodau 1 a 2 y ddogfen hon.

Cwestiynau i ymgynghori arnynt – llywodraethu ac aelodaeth:

6. A ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol barhau i enwebu aelodau Awdurdodau Tân ac Achub?
7. A ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol enwebu un aelod Awdurdod Tân ac Achub yr un, wedi eu dewis o blith eu haelodau cabinet?
8. A ydych chi'n credu bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r gyfraith ynglŷn â maint cabinet cyngor, a faint o dâl a roddir, fel y gall yr aelodau hefyd wasanaethu ar Awdurdodau Tân ac Achub?
9. A ydych chi'n credu y dylai Awdurdodau Tân ac Achub fod ag aelodau anweithredol hefyd?
10. Pwy ddylai benodi aelodau anweithredol Awdurdodau Tân ac Achub?
11. A ydych chi'n cytuno, yn y tymor hwy, y dylai cyfrifoldeb am y gwasanaeth fod yn nwylo Prif Swyddog Tân statudol, gydag Awdurdodau Tân ac Achub yn craffu a goruchwyllo? Os felly, a fyddai hynny'n golygu bod angen gwneud unrhyw newid i drefniadau aelodaeth?
12. A oes gennych chi unrhyw gynigion eraill ynglŷn â sut i ddiwygio'r modd o lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub sy'n bodloni'r meini prawf a nodir ym Mhenodau 1 a 2?

PENNOD 4

Newidiadau posib (2): Cyllid

- 4.1 Yn y bennod flaenorol amlinellwyd trefniadau newydd ar gyfer aelodaeth a llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub, yn seiliedig ar reolaeth leol ond gydag aelodau anweithredol yn herio. Mae'r bennod hon yn disgrifio'r dewisiadau ar gyfer cyllido Awdurdodau Tân ac Achub dan y model newydd hwn.
- 4.2 Diben y diwygio hwn yw (a) rhoi atebolrwydd priodol ar gyfer cyllidebau a gwariant, gan (b) cynnal faint o gyllid sydd ei angen i ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau nad ydynt yn greiddiol fel y rhai sy'n cefnogi'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol). Er bod sawl ffordd o greu atebolrwydd yn y sector cyhoeddus, mae angen dull mwy unigryw o ddiwallu anghenion cyllid penodol gwasanaeth brys o bwys.

Ffynonellau cyllid

- 4.3 Rhai o'r ffynonellau posibl yn y dyfodol ar gyfer cyllido Awdurdodau Tân ac Achub yw:
- a. Cyfraniadau gan awdurdodau lleol, fel sy'n digwydd nawr, ond gyda rhyw ffurf o reolaeth allanol ar, neu gytundeb am, lefel cyfraniadau o'r fath. Dyma'r newid lleiaf fyddai ei angen i'r trefniadau presennol, a byddai'n fodd o gynnal atebolrwydd lleol ar gyfer cyllidebau a gwariant. Ond ni fyddai'n darparu cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau di-graidd.
 - b. Cyllid grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn golygu y byddai'r cyllid sydd ar hyn o bryd yn dod drwy'r awdurdodau lleol yn dod i ben. Yng nghyd-destun cynni parhaus, mae'n bosibl y byddai'n rhaid cymryd cyllid o'r fath o grant cymorth refeniw llywodraeth leol yn y lle cyntaf. Byddai hyn yn creu rhyw fath o atebolrwydd i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad, a byddai'n bur gyson â chyllid a roddir i asiantaethau mewn meysydd megis iechyd. Byddai'n diddymu'r angen i awdurdodau lleol drosglwyddo arian i'r Awdurdodau Tân ac Achub, ond ni fyddai llawer o fantais i atebolrwydd lleol.
 - c. Praesept y dreth gyngor, h.y., codi swm ychwanegol, a bennir gan yr Awdurdod Tân ac Achub, ar filiau treth gyngor lleol, i dalu am wasanaethau tân ac achub. Gallai hyn wneud cost y gwasanaeth yn dryloyw i dalwyr y dreth gyngor leol, pe bai'r Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghori â nhw'n flynyddol ac yn asesu'n llawn effaith y lefel a bennir, gan gydbwysu anghenion y Gwasanaeth gyda'r beichiau ar gartrefi lle mae'r esgid eisoes yn gwasgu. Byddai gallu codi praespet hefyd yn golygu y gallai'r Awdurdodau Tân ac Achub reoli eu hadnoddau. Fodd bynnag, er na chât'r arian a godir ei dalu bellach i'r Awdurdodau Tân ac Achub gan awdurdodau lleol, byddai angen i'r awdurdodau lleol benderfynu a ddylid lleihau eu helpen nhw o'r dreth gyngor yn gymesur â hynny. Mewn amseroedd heriol, mae'n bosibl y bydd lleihad materol yn yr elfen honno yn annhebygol. Ac ar wahân i bwerau Gweinidogion Cymru i gyfyngu'r cynnydd i'r dreth gyngor, ni fyddai unrhyw reolaeth allanol ar lefel cyffredinol y gwariant.
 - d. Cyfuniad o (a) neu (b) ac (c). Byddai hyn yn cyfuno cryfderau'r gwahanol ddewisiadau, ond gallai gymhlethu'r system a'r atebolrwydd am wario oni

châi ei ddylunio'n ofalus. Caiff cyfuniad tebyg o grantiau gan Lywodraeth ganolog a phraesept y dreth gyngor ei ddefnyddio eisoes i ariannu gwasanaethau'r heddlu, a'r gwasanaethau tân yn Lloegr.

- 4.4 O'r dewisiadau hyn, credwn y byddai cyllid gan Lywodraeth Cymru yn unig yn anghyson â'r model llywodraeth leol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub a ddisgrifiwyd gennym. Er bod rhywfaint o sgôp i gael cyllid yn y modd hwn, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau di-graidd, byddai dibynnu arno'n llwyr yn golygu y byddai cyllid Awdurdodau Tân ac Achub yn debygol o deimlo'r pwysau sylweddol a hirdymor sydd ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, gan fygwth safonau gwasanaeth o bosibl. Byddai hefyd yn golygu tynnu'r symiau sylweddol iawn o'r Grant Cymorth Refeniw a drosglwyddir i'r Awdurdodau Tân ac Achub. Er nad yw'r arian hwnnw ar gael i'r awdurdodau lleol beth bynnag, gallai'r rhai sy'n cael fawr ddim cyllid drwy'r Grant Cefnogi Refeniw ddioddef yn anghymesur o ddull tebyg i hwnnw. Fodd bynnag, **gallai hyn fod yn ddewis wrth gefn os nad ystyrir bod unrhyw ddewis arall yn ymarferol.**
- 4.5 Gallai praesept y dreth gyngor wneud penderfyniadau am wariant yn fwy tryloyw. Byddai caniatáu i Awdurdodau Tân ac Achub barhau i reoli eu cyllidebau hefyd yn helpu i gynnal lefelau gwasanaeth yn ystod amser o gynni. Ond ni fyddai hyn yn creu unrhyw reolaeth neu her allanol, ar wahân i bwerau Gweinidogion i osod terfyn. Yn benodol, ni fyddai'r Awdurdodau Tân ac Achub yn atebol i'r etholwyr am eu penderfyniadau ar y dreth gyngor, yn wahanol i gyrff eraill sy'n cael eu hethol yn uniongyrchol megis y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau. Byddai mwy o gymhlethdod gweinyddol hefyd gyda'r Awdurdod Tân ac Achub a'r awdurdod lleol ill dau yn bilio ac yn casglu, ynghyd â'r cyfrifiadau treth perthnasol a'r llif gwybodaeth. Byddai angen inni sicrhau hefyd na fyddai'r dewis hwn yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hymrwymiad yn Symud Cymru Ymlaen i ddiwygio'r dreth gyngor a'i gwneud yn decach. A byddai angen creu pwerau i osod praesept mewn Deddf Cynulliad, felly ni allai hyn fod yn ddewis tymor byr.
- 4.6 Mae hynny'n gadael y posibilrwydd o addasu'r system bresennol o Awdurdodau Tân ac Achub yn codi cyfraniadau ar awdurdodau lleol. Byddai hyn yn rhoi mwy o atebolrwydd a rheolaeth os **oes angen i Awdurdodau Tân ac Achub gytuno i faint o gyllid y byddant yn ei gael bob blwyddyn gyda'u hawdurdodau lleol cyfansoddol.** Byddai gwneud hynny yn gosod cyllid Awdurdodau Tân ac Achub yn fwy eglur mewn cyd-destun ehangach o gyllido gwasanaethau lleol eraill, ac yn cymell trafodaeth ehangach. Os na ellid dod i gytundeb, **byddai pŵer awtomatig gan Weinidogion Cymru i gymrodeddu** rhwng sefyllfa'r Awdurdod Tân ac Achub a'i awdurdodau cyfansoddol. Yn ymarferol, byddai'r pŵer hwn yn golygu y byddai Gweinidogion Cymru yn pennu cyllideb yn awtomatig pe bai'n ymddangos na allai Awdurdod Tân ac Achub gytuno ar gyllideb fyddai'n adlewyrchiad teg o ofynion penodol gweithredu gwasanaeth brys effeithiol. Ni fyddai cyllideb o'r fath yn uwch na'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol gan Awdurdod Tân ac Achub, a'r awdurdodau lleol cyfansoddol fyddai'n dal i dalu'r costau.
- 4.7 Credwn y byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ar unwaith, a dyna yw ein hoff ddewis yn y tymor byr. Byddai gennym ddiddordeb hefyd i glywed safbwyntiau ar y dewisiadau mwy hirdymor, megis cyllido drwy praesept y dreth gyngor, wedi ei gyfuno â grant gan Lywodraeth Cymru. Y nod fyddai llunio system a fyddai'n rhoi gwell adlewyrchiad o swyddogaeth newidiol y Gwasanaeth, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cefnogi'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Dylai hefyd ganiatáu i Awdurdodau Tân ac

Achub barhau i fod ag elfen o reolaeth dros y lefelau cyllid, gan ddiogelu safonau gwasanaeth felly rhag pwysau hirdymor ar gyllid cyhoeddus.

- 4.8 Ond fel yn achos ein cynigion ar lywodraethu ac aelodaeth, nid ydym yn gaeth i'r manylion yn hyn o beth. Eto, **byddem yn fodlon iawn ystyried cynigion eraill o ran cyllid** ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cyffredinol dros ddiwygio.

Cwestiynau i ymgynghori arnynt – cyllid:

13. A ydych chi'n cytuno y dylai Awdurdodau Tân ac Achub ac awdurdodau lleol gytuno ar faint o gyllid a gaiff Awdurdodau Tân ac Achub bob blwyddyn, gyda phŵer cymrodeddu wrth gefn ar gyfer Gweinidogion Cymru?

14: A ydych chi'n cytuno, yn y tymor hwy, y dylai Awdurdodau Tân ac Achub fod â'r pwerau i osod praesept y dreth gyngor, gyda gweddill eu cyllid yn dod ar ffurf grantiau gan Lywodraeth Cymru?

15: A oes gennych chi unrhyw gynigion eraill ynglŷn â sut i ddiwygio cyllid Awdurdodau Tân ac Achub sy'n bodloni'r meini prawf ym Mhenodau 1 a 2?

PENNOD 5

Newidiadau posib (3): Rheoli perfformiad

- 5.1 Fel yr eglurwyd ym Mhennod 1, nid yw'r system rheoli perfformiad bresennol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yn addas iawn i'w hamgylchiadau; ac mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, y mae'n seiliedig arno, yn cael ei ddiddymu.
- 5.2 Rydym yn cynnig creu system newydd sy'n symlach, yn fwy hyblyg ac yn fwy cydnaws â nodweddion neilltuol y gwasanaethau tân ac achub. Yn benodol, bydd y system newydd:
 - a. Yn cynnwys terfynau amser hyblyg, yn hytrach na bod angen cynlluniau ac adroddiadau ar gylch sefydlog bob blwyddyn. Mae nifer o'r heriau a wynebwr gan y Gwasanaeth yn gofyn am drawsnewid hirdymor, gall adroddiadau blynyddol yn hawdd iawn dynnu sylw oddi ar hynny.
 - b. Yn caniatáu i Awdurdodau Tân ac Achub ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth ynglŷn â'r gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, yn hytrach na dibynnu ar ddangosyddion perfformiad sefydlog. Nid yw'r rhain na thechnegau mesur perfformiad confensiynol yn gweithio'n dda iawn i nifer o wasanaethau Awdurdodau Tân ac Achub. Mae hyn yn arbennig o wir am waith diogelwch ac atal, lle mae technegau ansoddol megis astudiaethau achos yn fwy defnyddiol.
 - c. Yn gydnaws â gofynion statudol eraill ar yr Awdurdodau Tân ac Achub, yn enwedig y rheini o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y nod fyddai i'r Awdurdodau Tân ac Achub orfod cynhyrchu dim ond un gyfres o gynlluniau ac adroddiadau i gyflawni pob gofyniad statudol o'r fath.
- 5.3 Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub yw'r weledigaeth strategol a dderbynnir drwy Gymru gyfan bellach ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub. Dylai fod wrth wraidd eu trefniadau rheoli perfformiad. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae statws y Fframwaith a dyletswyddau Awdurdodau Tân ac Achub yn unol â hynny ymhell o fod yn glir. Dim ond 'ystyried' y Fframwaith sydd angen i Awdurdodau Tân ac Achub ei wneud; eto i gyd, os nad ydynt yn gweithredu yn unol â hynny, gall Gweinidogion Cymru ymyrryd.
- 5.4 Felly rydym yn cynnig creu system newydd fel a ganlyn:
 - a. Byddai'r Fframwaith yn parhau i gael ei adolygu a'i ailgyhoeddi bob 3-5 mlynedd, ac yn cynnwys amcanion strategol ar gyfer y Gwasanaeth.
 - b. Byddai'r dull presennol o ddatblygu'r Fframwaith mewn cydweithrediad llawn â'r Awdurdodau Tân ac Achub ac undebau'r diffoddwyr tân hefyd yn parhau ac, yn yr un modd, berthnasedd y Fframwaith i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
 - c. Gyda phob cyhoeddiad o'r fframwaith, byddai'r Awdurdodau Tân ac Achub yn penderfynu a ddylid mabwysiadu'r amcanion unigol sydd ynddo, eu mabwysiadu gydag addasiadau lleol, neu beidio â'u mabwysiadu o gwbl. Gallai'r Awdurdodau Tân ac Achub benderfynu hefyd gynnwys eu hamcanion eu hunain os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

- d. Byddai gofyn i bob Awdurdod Tân ac Achub wedyn gyhoeddi cynllun ar gyfer cyfnod y Fframwaith hwnnw, gan nodi'r amcanion a fabwysiadwy ganddynt ac (os yw'n briodol) y rhesymau dros beidio â mabwysiadu rhai eraill. Byddai'r cynllun hwnnw hefyd yn nodi sut y gallai'r Awdurdod Tân ac Achub fonitro cynnydd tuag at yr amcanion hynny – a allai mewn rhai achosion ddeillio o'r Fframwaith ei hun.
- e. Byddai pob Awdurdod Tân ac Achub hefyd yn cynhyrchu adroddiadau cynnydd achlysurol. Byddai amseriad y rhain yn dibynnu ar yr amcanion y maent yn ymdrin â nhw. Byddai adroddiad blynyddol (neu amlach na hyn) yn fwyaf addas ar gyfer amcan yn ymwneud â gweithredu beunyddiol, ond nid felly gydag un a fyddai'n ymwneud â thrawsnewid hirdymor y Gwasanaeth.
- f. Byddai Gweinidogion Cymru yn cadw eu dyletswydd i adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol bob dwy flynedd ar y cynnydd o ran darparu'r Fframwaith, a'u pwerau i ymyrryd.

5.5 Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn defnyddio'r Bil Llywodraeth Leol arfaethedig i roi pwerau i Weinidog Cymru greu system fel hon.

Cwestiynau i ymgynghori arnynt – rheoli perfformiad:

16. A ydych chi'n cytuno y dylai'r system rheoli perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub fod yn seiliedig ar Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub

17. A ydych chi'n cytuno bod angen system o'r fath i roi hyblygrwydd i Awdurdodau Tân ac Achub o ran cylchoedd cynllunio ac adrodd, ac o ran y ffynonellau gwybodaeth y maen nhw yn eu defnyddio ar gyfer perfformiad?

18. A ydych chi'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru gadw eu dyletswydd i adrodd i'r Cynulliad am sut y caiff y fframwaith ei ddarparu, a'u pwerau i ymyrryd?

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno bod yr amcanion ar gyfer diwygio yn briodol ac yn bwysig?

Cwestiwn 2: A oes amcanion eraill y dylai'r cynllun diwygio roi sylw iddynt?

Cwestiwn 3: A ydych chi'n cytuno y dylai Awdurdodau Tân ac Achub barhau i fod yn endidau ar wahân a phenodol, gyda'r un ffiniau ag sydd ganddynt ar hyn o bryd?

Cwestiwn 4: A ydych chi'n cytuno na fyddai'n briodol trosglwyddo rheolaeth dros y gwasanaethau tân ac achub i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu neu awdurdodau lleol?

Cwestiwn 5: A ydych chi'n cytuno bod buddiannau cenedlaethol dilys ond cyfyngedig yn y Gwasanaeth y mae angen eu hadlewyrchu yn ei drefniadau llywodraethu?

Cwestiwn 6: A ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol barhau i enwebu aelodau Awdurdodau Tân ac Achub?

Cwestiwn 7: A ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol enwebu un aelod Awdurdod Tân ac Achub yr un, wedi eu dewis o blith eu haelodau cabinet?

Cwestiwn 8: A ydych chi'n credu bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r gyfraith ynglŷn â maint cabinet cyngor, a faint o dâl a roddir, fel y gall yr aelodau hefyd wasanaethu ar Awdurdodau Tân ac Achub?

Cwestiwn 9: A ydych chi'n credu y dylai Awdurdodau Tân ac Achub fod ag aelodau anweithredol hefyd?

Cwestiwn 10: Pwy ddylai benodi aelodau anweithredol Awdurdodau Tân ac Achub?

Cwestiwn 11: A ydych chi'n cytuno, yn y tymor hwy, y dylai cyfrifoldeb am y gwasanaeth fod yn nwylo Prif Swyddog Tân statudol, gydag Awdurdodau Tân ac Achub yn craffu a goruchwyllo? Os felly, a fyddai hynny'n golygu bod angen gwneud unrhyw newid i drefniadau aelodaeth?

Cwestiwn 12: A oes gennych chi unrhyw gynigion eraill ynglŷn â sut i ddiwygio'r modd o lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub sy'n bodloni'r meini prawf a nodir ym Mhenodau 1 a 2?

Cwestiwn 13: A ydych chi'n cytuno y dylai Awdurdodau Tân ac Achub ac awdurdodau lleol gytuno ar faint o gyllid a gaiff Awdurdodau Tân ac Achub bob blwyddyn, gyda phŵer cymrodeddu wrth gefn ar gyfer Gweinidogion Cymru?

Cwestiwn 14: A ydych chi'n cytuno, yn y tymor hwy, y dylai Awdurdodau Tân ac Achub fod â'r pwerau i osod praesept y dreth gyngor, gyda gweddill eu cyllid yn dod ar ffurf grantiau gan Lywodraeth Cymru?

Cwestiwn 15: A oes gennych chi unrhyw gynigion eraill ynglŷn â sut i ddiwygio cyllid Awdurdodau Tân ac Achub sy'n bodloni'r meini prawf ym Mhenodau 1 a 2?

Cwestiwn 16: A ydych chi'n cytuno y dylai'r system rheoli perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub fod yn seiliedig ar Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub?

Cwestiwn 17: A ydych chi'n cytuno bod angen system o'r fath i roi hyblygrwydd i Awdurdodau Tân ac Achub o ran cylchoedd cynllunio ac adrodd, ac o ran y ffynonellau gwybodaeth y maen nhw yn eu defnyddio ar gyfer perfformiad?

Cwestiwn 18: A ydych chi'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru gadw eu dyletswydd i adrodd i'r Cynulliad am sut y caiff y fframwaith ei ddarparu, a'u pwerau i ymyrryd?

Cwestiwn 19: Hoffem gael gwybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion polisi yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai'n dod i'r amlwg yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 20: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut yr ydych chi'n credu y gallai cynigion y polisi gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 21: Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol ynglŷn â llywodraethu, cyllid a rheoli perfformiad Awdurdodau Tân ac Achub. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi rhoi sylw penodol iddynt, rhowch eich sylwadau amdanynt isod:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.

